Bitesize

# Ongl newydd ar hen stori

## Polygonau

| | |
|---|---|
| RHEOLWRAIG | Gareth, mae polygonau cnydau wedi dechrau ymddangos mewn caeau lleol. Dw i eisiau'r stori nawr-ish! Dw i'n fòs rhesymol. A chofia, dw i eisiau stori sy'n llawn ymchwil nid stori geiniog a dimai i racsyn o bapur! |
| GARETH | Wrth gwrs, bòs! |
| | A dyma fi, yn cerdded o gwmpas ochr allanol un o'r pentagonau. Oes, mae pump ochr. Ar ôl i mi gerdded o gwmpas y pentagon unwaith a chyrraedd yn ôl ble ddechreuais i ac yn wynebu'r un ffordd, sylwais fod yr onglau gyda'i gilydd yn adio at 360°. |
| | Dyma fi ar octagon, dodecagon… |
| RHEOLWRAIG | Iawn, gwaith da. Ond est ti at wraidd y stori? |
| GARETH | O do, i'r canol, i grombil y stori. Roedd e'n drawiadol tu hwnt. |
| | Roeddwn i'n llwyddo i ddod yn ôl at ble ddechreuais i bob tro ond gyda rhai polygonau, roeddwn i'n wynebu'r un ffordd ond gydag eraill, roeddwn i'n wynebu'r ffordd arall. Roedd y symiau'n wahanol i bolygonau gwahanol. |
| RHEOLWRAIG | Oes drwg ar waith? |
| GARETH | Nag oes, dim ond mathemateg. Dewiswch bolygon ac un ferteg arni. Torrwch y polygon yn drionglau o'r ferteg yma i'r fertigau eraill. Onglau mewnol y trionglau hyn yw onglau mewnol y polygon, ac mae pawb yn gwybod, gyda'i gilydd mae onglau mewnol triongl yn 180°. |
| RHEOLWRAIG | Wel, wrth gwrs. |
| GARETH | Mae'r hecsagon yma'n cael ei rannu'n 4 triongl, felly mae'n rhaid bod swm yr onglau mewnol yn $4 \times 180 = 720°$. |
| RHEOLWRAIG | A'r lleill? |
| GARETH | Wel, mae cymaint o bosibiliadau. |


© Hawlfraint BBC

| | |
|---|---|
| GARETH | Edrychwch! Mae nifer y trionglau yn 2 yn llai na nifer yr ochrau. |
| RHEOLWRAIG | Ac felly mae swm yr onglau yn 180 wedi'i luosi gyda hynny. Mawredd! |
| GARETH | Ac ydych chi'n gwybod beth sy'n gwneud y peth mor anhygoel? Am bolygon rheolaidd… |
| RHEOLWRAIG | Hei, mae'r stori yma'n un dda ond sa' i'n siŵr am anhygoel. |
| GARETH | Siarad am bolygonau dw i! Mae gan rai rheolaidd onglau mewnol sy'n hafal i'w gilydd ac mae'r onglau allanol yn hafal hefyd. Felly os dw i eisiau ongl fewnol polygon rheolaidd, rhaid rhannu swm yr onglau gyda nifer yr ochrau a gwneud yr un peth ar gyfer yr onglau allanol! Beth am drio nonagon?<br><br>Swm yr onglau mewnol yw 180 × 9 – 2 = 1260°.<br><br>Mae'r onglau mewnol yn 1260° ÷ 9 = 140°.<br><br>Mae'r onglau allanol yn 360° ÷ 9 = 40°. |
| RHEOLWRAIG | Gwaith da am rywun ar brofiad gwaith - a rhad hefyd! |
| GARETH | Rhad ddywedoch chi, bòs? Dw i'n gweithio am ddim. |


© Hawlfraint BBC